Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Swansea**

**Dydd Iau, 5 Gorffennaf 2018 am 10.00am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C E Lloyd (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|---|
| J P Curtice | P Downing | M B Lewis |
| D G Sullivan | P Rees (CBS CNPT) | |

**Hefyd yn bresennol: -**

| | |
|---|---|
| I Guy | Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol |
| N Mills | Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol |
| W Marshall | Hymans Robertson |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Jeffrey Dong | Prif Swyddog y Trysorlys a Thechnegol/Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

## 1 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2018-2019

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd P Downing fel Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2018-2019.

## 2 Datganiadau o gysylltiadau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd J P Curtice - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd P Downing - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy mrawd yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd M B Lewis - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd C E Lloyd - yr agenda yn ei chyfanrwydd - rydw i a fy nhad yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol - personol.

Y Cynghorydd P Rees - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy merch-yng-nghyfraith yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd D G Sullivan - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy merch-yng-nghyfraith yn gweithio i'r awdurdod lleol - personol.

**Swyddogion:**

K Cobb – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Dong – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Parkhouse – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol a Chofnod rhif 4 – Datganiad o Gyfrifon Drafft 2017/18 – Clerc Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf – personol.

S Williams – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

## 3 Cofnodion

**Penderfynwyd** llofnodi cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ar 15 Mawrth a 4 Mai 2018 fel cofnodion cywir yn amodol ar y diwygiad canlynol: -

**15 Mawrth 2018**

Ychwanegu'r datganiad o ddiddordeb canlynol: -

Y Cynghorydd D G Sullivan - mae fy merch-yng-nghyfraith yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

## 4 Datganiad o Gyfrifon Drafft 2017/18

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol Ddatganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2017/18. Diolchodd i'r staff yn nhîm y Drysorfa a Thechnegol am eu gwaith er mwyn llunio'r cyfrifon.

Datganwyd bod Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe'n elfen wahanol ac ar wahân i Ddatganiad Cyfrifon Dinas a Sir Abertawe yn ei gyfanrwydd. Archwiliodd Swyddfa Archwilio Cymru Ddatganiad o Gyfrifon y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2017/18 yn unol â'i hadroddiad a chyflwynir hyn i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn yn ei chasgliad o'r archwiliad yn hwyrach yn y flwyddyn.

Rhoddodd ddadansoddiad manwl yn llawn gwybodaeth am y cyfrifon, gan bwysleisio'r elw cadarnhaol a nododd fod y rhagamcaniadau ar gyfer y llif arian yn y tymor hir yn gadarnhaol ar gyfer y gronfa yn y tymor canolig. Ychwanegodd fod asedau net y Gronfa wedi cynyddu i £1,914,031 ar 31 Mawrth 2018.

Atodir Datganiad o Gyfrifon Drafft Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2017/18 yn Atodiad 1.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i'r Swyddog, ac ymatebodd yn briodol.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon Drafft ar gyfer 2017/18.

## 5 Adroddiad Toriadau

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu manylion toriadau a gafwyd yn y Gronfa Bensiwn yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Yn Atodiad A darparwyd manylion am y toriadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Mawrth 2018. Amlygwyd manylion y toriadau hynny a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y rheolwyr.

## 6 Diweddariad am Reoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu diweddariad am gynllun gweithredu Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe i gydymffurfio â gofynion GDPR.

Yn Atodiad 1 darparwyd Arweiniad Ymarferol ar gyfer GDPR a darparwyd yr Hysbysiad Preifatrwydd GDPR llawn, Memorandwm o Ddealltwriaeth y Cyflogwr a chwestiynau cyffredin gan aelodau yn Atodiad 2.

## 7 Cynllun busnes

Adroddodd **Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol** Gynllun Busnes Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2018-2019 i'w gymeradwyo er mwyn darparu fframwaith gweithiol ar gyfer rhaglen waith y Gronfa.

Yn Atodiad 1 darparwyd y Cynllun Busnes Blynyddol ar gyfer 2018-2019, darparwyd Cofrestr Risgiau'r Gronfa Bensiwn yn Atodiad 2 a darparwyd Cyllideb y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2018-19 yn Atodiad 3.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r cynllun gyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Penderfynwyd:** -

1) nodi a chymeradwyo Cynllun Busnes Blynyddol Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2018-19;
2) y bydd Swyddog y Drysorfa a Thechnegol yn cyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn y Cynllun Busnes.

**8 Cynllun Hyfforddiant**

Adroddodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol Gynllun Hyfforddiant ar gyfer Aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiwn i'w gymeradwyo.

Darparwyd yr hyfforddiant a gwblhawyd yn 2017-2018 a'r hyfforddiant arfaethedig ar gyfer 2018-2019.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r hyfforddiant a nodir ar gyfer aelodau yn Adran 3.7 yr adroddiad.

**9 Gwahardd y Cyhoedd**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/ion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**10 Diweddariad am Bartneriaeth Pensiwn Cymru**

Darparodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad ‘er gwybodaeth’ a oedd yn rhoi'r diweddaraf am gynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Yn Atodiad 1 darparwyd yr amserlen ddiweddaraf a'r diweddaraf am gynnydd ynghylch gweithredu CCA Partneriaeth Pensiwn Cymru.

**11 Diweddariad am Bolisi Llywodraethu Cymdeithasol, Amgylcheddol (LICA)**

Darparodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad ‘er gwybodaeth’ a oedd yn rhoi'r diweddaraf am fynegeion carbon isel.

Yn Atodiad 1 darparwyd y Ffeithlen Mynegai Carbon Isel Blackrock MSCI.

## 12 Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi

Cyflwynwyd adroddiad 'er gwybodaeth' yr adroddiad chwarterol a oedd yn crynhoi prisiadau ased a pherfformiad y gronfa hyd at 31 Mawrth 2018.

Atodwyd adroddiad chwarterol Hymans Robertson yn Atodiad 1.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i'r Ymgynghorydd Buddsoddi ac atebwyd yn briodol iddynt. Nodwyd gynnwys yr adroddiad a diolchwyd i'r Ymgynghorydd Buddsoddi am yr adroddiad.

## 13 Adroddiad yr Ymgynghorydd Annibynnol

Roedd yr adroddiad 'er gwybodaeth' yn cyflwyno diweddariad economaidd a sylwebaeth y farchnad o safbwynt yr ymgynghorydd buddsoddi annibynnol a benodwyd.

Gorffennodd yr adroddiad ar 31 Mawrth 2018 gan yr ymgynghorydd buddsoddi annibynnol, ac atodwyd Mr Noel Mills yn Atodiad 1.

Nodwyd gynnwys yr adroddiad gan y Pwyllgor a diolchwyd i'r ymgynghorydd buddsoddi annibynnol am ei adroddiad.

## 14 Crynodeb Buddsoddi

Rhoddodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn cynnwys y perfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

Atodwyd crynodebau buddsoddi chwarterol y Gronfa Bensiwn ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 yn Atodiad 1.

## 15 Cyflwyniadau gan Reolwyr y Gronfa:

Cafwyd cyflwyniad gan Chris Head a Funmi Osiyemi o Blackrock.

Darparodd y rheolwyr wybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch mandad goddefol a chyllido cronfeydd rhagfantoli. Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys y cyflwyniad llafar ac atebwyd yn briodol iddynt.

Nodwyd cynnwys y cyflwyniad a diolchodd y Cadeirydd i Reolwr(wyr) y Gronfa am ddod i'r cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm

**Cadeirydd**